# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Talbot Road,

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 22 Mawrth 2018

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mehefin 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**

ISBN Digidol 978-1-78903-951

© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 7

   Ansawdd profiad y claf ........ 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 20

4. Beth nesaf? ........ 22

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 23

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 24

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 25

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 26

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Talbot Road yn 116 Talbot Road, Port Talbot, SA13 1LB, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 22 Mawrth 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal 2015, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y staff ym Mhractis Deintyddol Talbot Road yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf a gwelsom fod y staff yn gyfeillgar ac yn broffesiynol tuag at gleifion yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref, ac roedd gan y practis y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith er mwyn cefnogi'r practis, y cleifion a'r staff.

Mae angen i'r practis sicrhau y cynhelir cofnodion cleifion yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Mae'r practis wedi ymrwymo i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion
- Roedd tystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth dda gan y tri phrif ddeintydd
- Roedd gan y practis amrediad da o bolisïau a gweithdrefnau ar waith
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai cofnodion cleifion gael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, sef Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Rhaid i'r practis sicrhau bod cyfrinachedd a phreifatrwydd cleifion yn cael eu diogelu bob amser

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Talbot Road yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Port Talbot. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, un hylenydd, saith nyrs ddeintyddol a dau dderbynnydd.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod y practis wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion a gwelsom staff yn bod yn broffesiynol ac yn gwrtais i gleifion.

Roedd y practis yn ceisio adborth gan gleifion yn weithredol, gan gwblhau arolygon cleifion bob blwyddyn a gwahodd cleifion i ddarparu awgrymiadau yn y blychau a ddarperir yn yr ardaloedd aros. Roedd y practis hefyd yn darparu adborth i gleifion ar ganlyniadau unrhyw awgrymiadau ac arolygon.

Nododd y cleifion hynny a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 20 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *Rwyf wedi derbyn gwasanaeth da iawn ar bob adeg. Mae pob aelod o staff yn gymwynasgar ac yn gwrtais. Byddwn yn argymell y lle. Diolch.*
>
> *Mae safon y gofal yn arbennig ac mae pob aelod o'r tîm bob amser yn gymwynasgar ac yn broffesiynol.*
>
> *Rwyf wedi bod yn glaf yn y practis ers sawl blwyddyn, ac ni fyddwn yn ystyried symud i unrhyw bractis arall byth. Mae pob aelod o staff yn gyfeillgar, yn garedig ac yn gymwynasgar.*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*Dim materion i'w gwella oni bai am anfon negeseuon testun yn hytrach na llythyron i atgoffa cleifion am apwyntiadau.*

*Mae'r practis deintyddol dwi'n ei fynychu yn gweddu i fy holl anghenion. Dim meysydd amlwg i'w gwella.*

## Cadw'n iach

Yn yr ardaloedd aros ar y llawr daear a'r llawr cyntaf, gwelsom fod detholiad o daflenni gwybodaeth hybu iechyd ar gael. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni ynghylch triniaethau a chyngor ataliol. Yn ychwanegol at hyn, roedd y practis wedi paratoi gwybodaeth ychwanegol ar gynnwys siwgwr rhai bwydydd a diodydd ac ar iechyd ceg plant.

Dywedodd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi trafod gydag ef sut y gallai gadw ei geg a'i ddannedd mewn cyflwr iach.

## Gofal ag urddas

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom staff yn bod yn gwrtais wrth siarad gyda chleifion oedd yn ymweld â'r practis ac wrth siarad gyda chleifion dros y ffôn.

Pe bai angen cynnal sgwrs breifat gyda chlaf, dywedodd staff wrthym y byddent yn defnyddio'r ystafell staff neu ystafell driniaeth os oedd yn rhydd. Gellid hefyd gwneud galwadau ffôn o'r ystafell staff, neu byddai staff yn aros hyd yr awr ginio, pan fyddai'r practis ar gau a'r dderbynfa'n rhydd, gan gynnig preifatrwydd i'r claf.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gynnwys (cymaint ag a ddymunai) mewn unrhyw benderfyniad a wnaed am ei driniaeth a, phan mae angen triniaeth arno, fod y tîm deintyddol yn barod i'w helpu i ddeall pob opsiwn sydd ar gael.

Dywedodd y mwyafrif o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio'n glir iddynt cyn derbyn unrhyw driniaeth, a'u bod yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Gwelsom restrau prisiau yn arddangos costau triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat yn y mannau aros ar y llawr daear a'r llawr cyntaf.

Roedd manylion y deintyddion a'u horiau agor priodol yn cael eu harddangos yn y brif fynedfa i'r practis.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron a oeddent yn eu hystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Dywedodd tri chlaf eu bod yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym (gan gynnwys cleifion Cymraeg eu hiaith a chleifion di-Gymraeg) eu bod yn rhydd i siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

## Gofal amserol

Dywedodd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur y byddai'n gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddo broblem ddeintyddol frys. Roedd manylion ynghylch sut y gallai cleifion gael mynediad at ofal deintyddol pan fo'r practis ar gau yn cael eu harddangos ar ffenestr flaen y practis, yn y dderbynfa ac yn nhaflen wybodaeth y practis. Roedd yr wybodaeth hefyd yn cael ei darparu ar neges peiriant ateb y practis.

Roedd y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu pe bai oedi gyda'r deintydd.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Canfuom fod y mynediad i'r practis yn dda. Roedd gris bach yn arwain at y brif fynedfa o'r stryd ac roedd staff yn defnyddio ramp cludadwy i alluogi cleifion mewn cadeiriau olwyn i gael mynediad i'r practis. Roedd y dderbynfa, yr ardal aros ac un ystafell driniaeth ar y llawr gwaelod, a gallai cleifion a chanddynt anawsterau symudedd gael mynediad iddynt. Roedd ardal aros ychwanegol a dwy ystafell driniaeth arall ar y llawr cyntaf.

Roedd toiled ar gael i gleifion ar y llawr daear (y gellid cael mynediad iddo drwy'r ystafell staff) a oedd yn darparu cyfleusterau i gleifion a chanddynt anawsterau symudedd. Roedd ganddo fynediad da a rheiliau llaw a oedd yn darparu cymorth i'r cleifion a oedd ei angen. Byddem yn cynghori'r practis i ystyried gosod larwm yn y toiled. Roedd ail doiled ar y llawr cyntaf.

### Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i fynegi pryder neu gwyno am y gwasanaethau roeddent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar gyfer triniaeth ddeintyddol breifat a thriniaeth y GIG. Lle y bo'n berthnasol, roedd y polisi wedi'i alinio â phroses gwynion y GIG, 'Gweithio i Wella',[1] ac, o ran triniaeth ddeintyddol breifat, â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.[2] Roedd y polisi wedi'i arddangos yn y dderbynfa ac roedd posteri 'Gweithio i Wella' wedi'u harddangos yn y ddwy ardal aros.

Roedd y practis yn cynnal ac yn cadw ffolder a oedd yn cynnwys cofnodion o'r cwynion a dderbyniwyd a'u canlyniadau.

Roedd y practis hefyd yn cofnodi pryderon ar lafar ac adborth mewn llyfr nodiadau a gaiff ei gadw yn y dderbynfa. Caiff y rhain eu monitro'n rheolaidd i nodi unrhyw themâu parhaus.

Gwelsom fod gan y practis flychau awgrymiadau yn yr ardaloedd aros. Dywedwyd wrthym y caiff yr holl awgrymiadau eu hadolygu'n rheolaidd a'u

---

[1] 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

[2]https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

trafod mewn cyfarfodydd staff i nodi a ellid gweithredu rhai ohonynt. Roedd y practis hefyd yn arddangos adborth ar yr awgrymiadau a dderbyniwyd yn yr ardaloedd aros, yn ogystal ag arolygon cleifion a gwblhawyd yn flynyddol.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy’n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Gwnaethom nodi bod y cyfleusterau clinigol yn amlwg yn lân ac wedi'u cyfarparu'n dda.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-x yn ddiogel ac roedd tystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Mae angen i'r practis sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel.

Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion meddygol cleifion yn cael eu cwblhau yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion ar adeg pob ymweliad.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant cleifion a oedd yn ymweld â'r practis a'r staff sy'n gweithio yn y practis. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur o’r farn fod y practis deintyddol yn lân iawn.

O'r tu allan, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn ôl pob golwg. Ar y cyfan, roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, gydag offer a chyfarpar wedi'u storio'n briodol. Byddem yn argymell y dylai'r practis osod cloeon ar y cwpwrdd ar y llawr cyntaf, lle y caiff holl waith papur y practis a'r staff ei gadw, yn ogystal ag yn yr ardal ddadheintio o dan y grisiau ar y llawr daear, i sicrhau cyfrinachedd y practis a diogelwch cleifion yn ôl y drefn.

Caiff profion dyfeisiau cludadwy eu cynnal yn rheolaidd i helpu i sicrhau bod dyfeisiau cludadwy bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Y tro diwethaf i'r practis gynnal profion dyfeisiau cludadwy oedd yn 2015. Dylid cynnal profion dyfeisiau cludadwy yn rheolaidd, a byddem yn cynghori'r practis i'w trefnu. Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch yr adeilad a gwnaethom nodi eu bod wedi derbyn gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (cartref) yn ddiogel.

Ar adeg ein hymweliad, roedd cyfleusterau ar gael i waredu ar gynhyrchion hylendid benywaidd yn y toiled ar y llawr cyntaf, ond nid yn y toiled anabl ar y llawr daear. Pan wnaethom hysbysu'r practis ynghylch y rheoliadau cyfredol, cymerwyd camau i fynd i'r afael â hyn ar unwaith, ac archebwyd uned waredu ychwanegol.

Roedd gan y practis lyfr Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR), a oedd yn cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith a gwnaethom nodi bod y poster iechyd a diogelwch, ynghyd â'r wybodaeth berthnasol, yn cael ei arddangos.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002, mae'n rhaid i gyflogwyr naill ai atal neu leihau datguddiad staff i sylweddau sy'n niweidiol i'w hiechyd. Roedd gan y practis bolisi Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a dalenni data a oedd yn darparu gwybodaeth gyfyngedig am sylweddau sy'n 'beryglus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis yn ddiogel. Mae canllawiau'r Awdurdod Gweithredu Iechyd a Diogelwch[3] yn cynghori y dylai dalenni data diogelwch ddisgrifio'r peryglon y mae cemegion yn eu peri a rhoi gwybodaeth ynglŷn â'u cadw a'u storio ac am fesurau brys pe bai damwain. Yn ogystal, rydym yn cynghori y dylid rhoi rhagor o wybodaeth ynghylch y sgil effeithiau pe ymdrinnir â hwy'n anghywir.

[3] http://www.hse.gov.uk/coshh/basics/datasheets.htm

Yr hyn y mae angen ei wella

Er mwyn sicrhau cyfrinachedd a phreifatrwydd cleifion, dylai'r practis osod cloeon ar y cwpwrdd ar y llawr cyntaf, lle y caiff gwaith papur ei gadw, ac ar y drws i'r ardal ddadheintio ar y llawr daear.

Dylid diwygio ffeil y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) fel bod y dalenni data diogelwch yn cynnwys y camau brys sydd i'w cymryd pe bai damwain.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[4]

Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd gan yr ystafell driniaeth ar y llawr daear ardal ddadheintio a oedd wedi'i lleoli o dan y grisiau, ac roedd yr ystafelloedd triniaeth ar y llawr cyntaf yn defnyddio'r cyfleusterau dadheintio cyfredol a oedd wedi'u lleoli ar y llawr cyntaf. Roedd gwaith glanhau â llaw yn cael ei gynnal yn yr ystafelloedd triniaeth cyn symud yr offer i'r ardaloedd dadheintio ar gyfer eu sterileiddio. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod yr arwynebau gwaith o gwmpas sinc yr ystafell driniaeth ar y llawr daear yn anniben, ac y byddem yn cynghori y dylid cadw'r ardal hon yn glir i sicrhau nad yw'n effeithio ar y gwaith glanhau â llaw. Dywedwyd wrthym y bydd y practis yn adnewyddu'r ystafell ar y llawr cyntaf yn y chwe mis nesaf, ac yn ei thrawsnewid yn ystafell ddadheintio benodedig ar gyfer pob un o'r tair ystafell driniaeth.

Rydym yn argymell y dylai'r practis sicrhau bod ganddo thermomedrau ym mhob ystafell driniaeth i sicrhau bod y dŵr a ddefnyddir yn ystod y broses golchi â llaw ar y tymheredd cywir ac y caiff y tymheredd hwn ei gynnal.

Cynhaliwyd gwiriadau cynnal a chadw ar yr offer sterileiddio yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr a gwelsom dystiolaeth fod y llyfrau log ar gyfer

[4] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

gwirio'r offer sterileiddio yn cael eu cynnal. Roedd gan y practis bolisi rheoli heintiau ar waith.

Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol pan oeddent yn gweithio yn yr ystafell ddadheintio.

Gwelsom dystiolaeth fod gan yr holl staff clinigol dystysgrifau yn eu ffeiliau i gadarnhau bod eu hyfforddiant ar reoli heintiau yn gyfredol.

Roedd y practis wedi ymgymryd ag archwiliadau rheoli heintiau fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis gael thermomedrau ar gyfer pob ystafell driniaeth er mwyn hwyluso'r weithdrefn golchi â llaw a dadheintio.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau i ddelio ag argyfyngau cleifion, yn cynnwys polisi dadebru oedd yn cael ei arddangos ym mhob ystafell driniaeth ddeintyddol.

Ac eithrio un aelod o staff anghlinigol, gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant o fewn y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i berfformio dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd gan y practis y cyffuriau a'r offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU.[5] Gwnaethom nodi bod drws yr ystafell staff, lle roedd y pecyn a'r cyffuriau'n cael eu cadw, wedi torri ac y gallai cleifion gael mynediad iddynt. Rydym yn argymell y caiff y rhain eu storio'n ddiogel ac mewn lleoliad sy'n ddigon hygyrch i staff. Gwnaethom nodi bod gan y practis system

[5] Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu.

ar waith i wirio bod y cyffuriau brys a'r cyfarpar o fewn eu dyddiad ac yn barod i'w defnyddio.

Gwnaethom nodi bod padiau rhagnodi'n cael eu cadw'n ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai’r practis sicrhau bod ei becyn a chyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed a'u bod yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol.

Roedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar un neu'r ddwy agwedd ar hyfforddiant, h.y. amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion agored i niwed.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn yn y practis.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân ac yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd y cyfarpar radiolegol yn gweithio'n dda ac roedd y mannau a reolir wedi cael eu nodi. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal a'i chadw ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol.

Roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[6] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.[7]

---

[6] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis raglen o archwiliadau ar waith mewn perthynas â rheoli heintiau, radiograffau a chadw cofnodion. Gwnaethom hefyd nodi polisi llywodraethu clinigol y practis.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd y practis yn cadw cofnodion ysgrifenedig ac, ar y cyfan, gwnaethom nodi bod y rhain yn cael eu storio'n briodol i sicrhau diogelwch data personol. Roedd ffeiliau papur cyfredol yn cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo yn y dderbynfa. Roedd ffeiliau papur etifeddol yn cael eu storio mewn cypyrddau ffeilio dan glo yn nerbynfeydd y llawr daear a'r llawr cyntaf. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod cofnodion cleifion, a oedd yn cynnwys gwybodaeth y gellid adnabod cleifion ohoni, yn cael eu storio mewn mannau storio agored sy'n hongian wrth y wal y tu allan i'r ystafelloedd ymgynghori/triniaeth cyn i glaf weld deintydd. Roedd hyn yn golygu bod y risg o dorri cyfrinachedd cleifion yn uchel iawn, ac rydym yn argymell y dylid diddymu'r arfer hwn ac y caiff yr holl wybodaeth y gellid adnabod cleifion ohoni ei storio'n ddiogel.

Roedd gan y practis nifer o bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl wybodaeth y gellid adnabod cleifion ohoni yn cael ei storio'n ddiogel, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Yn benodol, ni ddylid storio gwybodaeth y gellid adnabod cleifion ohoni mewn mannau storio agored sy'n hongian wrth y wal y tu allan i'r ystafelloedd triniaeth.

### Cadw cofnodion

---

[7] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Yn gyffredinol, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion a gofal cleifion o ansawdd da. Canfuom rai diffygion mewn rhai achosion, sef nid oedd cofnod o'r canlynol:

- Cyfiawnhad am ddefnyddio pelydrau-X a’u graddio yn unol â'r canllawiau cyfredol
- Bod pelydrau-X *bitewing* yn cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau cyfredol
- Bod cynlluniau triniaeth yn cofnodi opsiynau triniaeth a chydsyniad cleifion i driniaeth
- Bod hanesion meddygol yn cael eu cydlofnodi gan y clinigydd

### Yr hyn y mae angen ei wella

Yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi cynlluniau triniaeth a chydsyniad cleifion. Dylid cwblhau pelydrau-X a radiograffau *bitewing* yn unol â'r canllawiau cyfredol a dylai'r clinigydd gydlofnodi hanesion meddygol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Canfuom dystiolaeth o arweinyddiaeth a llinellau atebolrwydd da.

Canfuom fod gan y practis systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y practis a'r staff yn cael cefnogaeth a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion.

Roed gan y practis amrediad cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, yn ogystal â gweithdrefnau rheoli cadarn er budd y staff, gan gynnwys arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd staff rheolaidd.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y tri phrif ddeintydd sy'n berchen ar Bractis Deintyddol Talbot Road, a chaiff y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd ei gyflawni ganddynt hwy hefyd. Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth gref a bod yr holl staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y practis wedi'i drefnu'n dda, a gwelwyd gwaith cadw cofnodion da ym mhob maes. Gwelsom fod amrediad eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwelsom dystiolaeth fod y polisïau yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan un o'r prif ddeintyddion. Yn ogystal, gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi'u darllen a'u deall.

Gwnaethom nodi bod rhaglen eang o asesiadau risg wedi'i chwblhau, gan gynnwys diogelwch tân, cymorth cyntaf, gweithio unigol, a mamau beichiog a mamau sy'n bwydo ar y fron.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Dywedodd staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y practis a gwelsom gydberthynas gref rhwng holl staff y practis. Gwnaethom nodi bod gan bob aelod o staff gontract gwaith a gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau'r staff fod rhaglen sefydlu ar waith yn y practis. Roedd gan y practis raglen gadarn o arfarniadau staff a oedd yn cael ei chwblhau'n flynyddol, ac roedd ffurflenni wedi'u cwblhau yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd staff misol. Yn dilyn pob cyfarfod, caiff cofnodion eu drafftio a'u harddangos ar hysbysfwrdd y staff yn yr ystafell ddadheintio/stoc ar y llawr cyntaf. Caiff y cofnodion eu llofnodi gan aelodau o staff pan fyddant wedi eu darllen.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar bob aelod o staff clinigol a’r rhai hynny nad ydynt yn glinigol. Ar adeg yr arolygiad, roedd ceisiadau wedi'u cyflwyno mewn perthynas â dwy nyrs ddeintyddol, a darparwyd eu tystysgrifau cyn cwblhau'r adroddiad hwn.

Mae angen imiwneiddio staff clinigol rhag hepatitis B er mwyn diogelu'r cleifion a'u hunain rhag heintiau. Roedd y practis yn darparu tystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o staff clinigol.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod gan bob un yswiriant indemniad priodol. Mae Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 yn mynnu bod gwasanaethau'n arddangos tystysgrifau cofrestru gwreiddiol. Gwelsom dystysgrif AGIC pob deintydd wedi'i harddangos yn glir yn ei ystafell driniaeth briodol.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

- Atodiad C:  Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru

- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach

- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## **Atodiad A** – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Talbot Road

## Dyddiad yr arolygiad:22 Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Talbot Road

## Dyddiad yr arolygiad:22 Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Er mwyn sicrhau cyfrinachedd a phreifatrwydd cleifion, dylai'r practis osod cloeon ar y cwpwrdd ar y llawr cyntaf, lle y caiff gwaith papur ei gadw, ac ar y drws i'r ardal ddadheintio ar y llawr daear. | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch | Gosod cloeon ar gwpwrdd y landin ac ar y drws i'r ardal ddadheintio ar y llawr daear. | Simon Gregson | Diwedd mis Mai 2018 |
| Dylid diwygio ffeil y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) fel bod y dalenni data diogelwch yn cynnwys y camau | | Diweddaru ffeil y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH). I'w gwblhau fel tîm. | Janette Harrison | Hydref 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| brys sydd i'w cymryd pe bai damwain. | | | | |
| Dylai'r practis gael thermomedrau ar gyfer pob ystafell driniaeth er mwyn hwyluso'r weithdrefn golchi â llaw a dadheintio. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Prynu thermomedrau dŵr ar gyfer pob ystafell driniaeth. Adolygu'r tymereddau dŵr ar gyfer glanhau â llaw gyda'r tîm. | Ann-Marie Howells | Mai 2018 |
| Dylai’r practis sicrhau bod ei becyn a chyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel. | 2.6 Rheoli meddyginiaethau | Trwsio'r clo sydd wedi torri neu osod clo newydd ar ddrws cegin y staff. | Simon Gregson | Diwedd mis Mai 2018 |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl wybodaeth y gellid adnabod cleifion ohoni yn cael ei storio'n ddiogel, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Yn benodol, ni ddylid storio gwybodaeth y gellid adnabod cleifion ohoni mewn mannau storio agored sy'n hongian wrth y wal y tu allan i'r ystafelloedd triniaeth. | 3.4 Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu | Adolygu'r gwaith o drosglwyddo ffeiliau'r cleifion i'r ystafelloedd triniaeth gyda'r tîm. Mae angen system newydd sy'n dilyn Deddf Diogelu Data 1998. Mae'r amserlen yn dangos bod angen mabwysiadu system sy'n gweithio ar gyfer cleifion a staff ac sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data. | Janette Harrison | Awst 2018 |
| Yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi cynlluniau triniaeth a chydsyniad cleifion. Dylid cwblhau pelydrau-X a radiograffau *bitewing* yn unol â'r canllawiau cyfredol a dylai'r clinigydd gydlofnodi | 3.5 Cadw cofnodion | Cynnal archwiliad cadw cofnodion a threfnu hyfforddiant ar gadw cofnodion i'r tîm. | Janette Harrison | Hydref 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| hanesion meddygol. | | | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras):Janette Harrison

## Swydd: Deintydd / Partner / Rheolwr Cofrestredig

## Dyddiad: 16 Mai 2018